

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
25/2018
DYDDIAD CYHOEDDI:
02/05/2018

Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2017

Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2017

Awdur(on) / Cwmni: Dr Jenny Murphy a Keely Jones

Adroddiad ymchwil llawn - dyfyniad: Murphy, J., a Jones, K., (2018). *Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2017*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 25/2018

Ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/local-government-candidates-survey/?lang=cy>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ian Jones

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 0090

E-bost: Ian.Jones006@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Crynodeb Gweithredol.....	4
3.	Methodoleg	6
4.	Profiad blaenorol fel cynghorydd Sir.....	9
5.	Profiad blaenorol fel cynghorydd Cymuned.....	10
6.	Ymlyniad i blaid	11
7.	Rhywedd	12
8.	Oedran	14
9.	Ethnigrwydd	15
10.	Crefydd.....	16
11.	Cyfeiriadedd rhywiol	17
12.	Addysg a chymwysterau	18
13.	Statws cyflogaeth	19
14.	Cymorth di-dâl.....	23
15.	Iechyd corfforol a meddyliol.....	24
16.	Anabledd	25
17.	Yr iaith Gymraeg	26
18.	Argymhellion	28

1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth yr Uned Ddata Llywodraeth Leol ~ Cymru (yr Uned Ddata) arolwg o ymgeiswyr etholiad llywodraeth leol ar gyfer etholiadau Mai 2017. Hwn oedd ail arolwg ymgeiswyr etholiad llywodraeth leol, wedi i'r un cyntaf gael ei gynnal yn dilyn etholiadau 2012.

Fel rhan o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal arolwg safonedig o gynghorwyr ac ymgeiswyr am etholiad i swydd cynghorydd yn eu hardaloedd hwy. Mae'r arolwg yn cynnwys cynghorwyr ac ymgeiswyr sir a thref a rhai cymuned ac yn gofyn set benodedig o gwestiynau a oedd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gwestiynau am rywedd; cyfeiriadedd rhywiol; iaith; ethnigrwydd; oedran; anabledd; crefydd neu gred; iechyd; addysg a chymwysterau; cyflogaeth; a'u gwaith fel cynghorydd. Cynhaliodd yr Uned Ddata yr arolwg 2017 ar ran yr awdurdodau lleol.

Prif nod yr arolwg yw darparu gwybodaeth amserol am broffil demograffig cynghorwyr ac ymgeiswyr awdurdodau lleol. Y bwriad yw ailadrodd yr arolwg yn ystod pob etholiad arferol er mwyn olrhain newidiadau yn nodweddion ymgeiswyr a chynghorwyr dros amser.

Bu adolygiad o'r fethodoleg a'r holiadur yn dilyn cwblhau arolwg 2012 a chyhoeddwyd adroddiad gan y grŵp arbenigwyr ar amrywiaeth mewn llywodraeth leol¹. Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd, ac unrhyw newidiadau ers yr arolwg blaenorol, yn cael eu hamlinellu yn yr adran ar fethodoleg. Offeryn statudol yw holiadur 2017. Mae unrhyw newidiadau a wnaed i gwestiynau 2012 yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad.

O ran sut mae'r data wedi'i ddadansoddi a'i gyflwyno yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig sylwi nad yw canfyddiadau'r arolwg wedi eu pwysoli ac nad yw lwfansau ansicrwydd wedi eu cyfrifo. Ystyr hynny'n ymarferol yw 1) bod lwfansau ansicrwydd anhysbys ynghylch y rhifau sy'n deillio o'r arolwg; a 2) na ddylid cymharu canlyniadau arolygon 2012 a 2017, am nad oes modd cadarnhau dilysrwydd ystadegol gwahaniaethau rhwng y ddau arolwg.

¹ <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/140305-expert-group-report-cy.pdf>

Cynhaliodd yr Uned Ddata ddadansoddiad manwl o ddata arolwg 2017 ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi nodweddion demograffig cynghorwyr etholedig ac ymgeiswyr anetholedig, gan ganolbwyntio'n arbennig ar nodweddion sy'n arwydd o amrywiaeth. Y bwriad yw i'r wybodaeth sy'n cael ei darparu gefnogi Llywodraeth Cymru a'r pleidiau gwleidyddol wrth ddatblygu polisiau i gynyddu amrywiaeth y sawl sy'n sefyll fel cynghorwyr sir a chymuned.

Mae'r term 'sir' yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymgeiswyr/cynghorwyr siroedd a bwrdeistrefi sirol ac mae'r term 'cymuned' yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymgeiswyr/cynghorwyr cymunedau a threfi drwy gydol yr adroddiad hwn.

2. Crynodeb Gweithredol

- Roedd 3,449 o ymgeiswyr sir a 7,326 o ymgeiswyr cymuned yn etholiadau llywodraeth leol 2017. Yn gyffredinol, cafodd 36 y cant o ymgeiswyr sir eu hethol yn gynghorwyr sir a chafodd 90 y cant o ymgeiswyr cymuned eu hethol yn gynghorwyr cymuned.
- Denodd yr arolwg 1,701 o ymatebion. Y gyfradd ymateb yn achos ymgeiswyr sir oedd 24 y cant ac yn achos ymgeiswyr cymuned 17 y cant. Amrywiodd y cyfraddau ymateb o 26 y cant yn Sir Ddinbych i 11 y cant ym Mhowys.

Profiad blaenorol

- Ymhlith cynghorwyr sir, roedd bron dau o bob tri (62 y cant) wedi sefyll mewn etholiad sirol o'r blaen ac roedd rhyw hanner (51 y cant) wedi eu hethol o'r blaen. Ymhlith cynghorwyr cymuned roedd 57 y cant wedi sefyll mewn etholiad o'r blaen ac roedd 53 y cant wedi eu hethol o'r blaen.

Rhywedd

- Gwrywod oedd tua dau o bob tri (67 y cant) o gynghorwyr sir, ac roedd cyfran debyg o ymgeiswyr sir anetholedig yn wryw hefyd (72 y cant). Ymhlith cynghorwyr cymuned ac ymgeiswyr cymuned anetholedig roedd 65 y cant yn wryw.

Oedran

- Roedd bron hanner (47 y cant) o gynghorwyr sir yn 60 oed neu'n hŷn o'u cymharu â bron dau o bob pump (39 y cant) o ymgeiswyr sir anetholedig. Roedd cyfrannau tebyg o gynghorwyr cymuned ac ymgeiswyr cymuned anetholedig a oedd yn 60 oed neu'n hŷn, 55 y cant a 47 y cant yn y drefn honno.

Ethnigrwydd

- Ymhlith cynghorwyr sir roedd 1.8 y cant heb fod yn wyn o'u cymharu â 2.3 y cant o ymgeiswyr sir anetholedig. Ymhlith cynghorwyr cymuned roedd 1.2 y cant heb fod yn wyn o'u cymharu ag 1.9 y cant o ymgeiswyr cymuned anetholedig.

Crefydd

- Datganodd dau o bob tri (66 y cant) o gynghorwyr sir eu bod yn Gristnogion o'u cymharu â 56 y cant o ymgeiswyr sir anetholedig. Datganodd tua dau o bob tri (69 y cant) o gynghorwyr cymuned eu bod yn Gristnogion hefyd. Mae hyn yn cymharu â 61 y cant o ymgeiswyr cymuned anetholedig.

Cyfeiriadedd rhywiol

- Ymhlith cynghorwyr sir, nododd 7.1 y cant eu bod yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol o'u cymharu â 6.9 y cant o ymgeiswyr sir anetholedig. Cyfran y cynghorwyr cymuned ac ymgeiswyr cymuned anetholedig a adroddodd eu bod yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol oedd 3.7 y cant a 3.3 y cant yn y drefn honno.

Iechyd ac anabledd

- Adroddwyd bod iechyd corfforol yn dda neu'n dda iawn i 89 y cant o gynghorwyr sir ac 85 y cant o gynghorwyr cymuned.
- Cyfran y cynghorwyr sir a oedd yn ystyried bod ganddynt anabledd oedd 12 y cant o'u cymharu ag 16 y cant o ymgeiswyr sir anetholedig. Ymhlith cynghorwyr cymuned ystyriodd 15 y cant fod ganddynt anabledd o'u cymharu â 18 y cant o ymgeiswyr cymuned anetholedig.

Addysg

- Roedd gan ddau o bob tri (66 y cant) o gynghorwyr sir a chynghorwyr cymuned gymhwyster a oedd yn cyfateb i NVQ Lefel 4 neu'n uwch. Cyfran yr ymgeiswyr sir anetholedig â lefel debyg o addysg oedd 73 y cant o'u cymharu â 63 y cant o ymgeiswyr cymuned anetholedig.

Cyflogaeth

- Roedd tuag un o bob tri (31 y cant) o gynghorwyr sir wedi ymddeol o'u cymharu â 24 y cant o ymgeiswyr sir anetholedig. Ymhlith cynghorwyr cymuned roedd 42 y cant wedi ymddeol o'u cymharu â 32 y cant o ymgeiswyr cymuned anetholedig.

Y Gymraeg

- Nodwyd mai'r Gymraeg oedd prif iaith 15 y cant o gynghorwyr sir a 9 y cant o ymgeiswyr sir anetholedig. Yn yr un modd, y cyfrannau a nododd y Gymraeg fel eu prif iaith oedd 17 y cant o gynghorwyr cymuned ac 8 y cant o ymgeiswyr cymuned anetholedig.

3. Methodoleg

- 3.1** Cafodd yr arolwg ei gynnal cyn, yn ystod ac ar ôl etholiadau llywodraeth leol a gynhaliwyd ar 4 Mai 2017. Trefnwyd bod yr holiadur ar gael i ymgeiswyr am etholiadau sir a chymuned fel rhan o'u pecynnau enwebu. Cafodd yr arolwg ei gynnal ar-lein gyda chopïau papur ar gael drwy wneud cais.
- 3.2** Cafodd arolwg 2012 ei gynnal ar ôl yr etholiad er mwyn caniatáu dadansoddiad o'r ymgeiswyr etholedig (cynghorwyr) ac ymgeiswyr anetholedig. Nid oedd y dull hwn yn casglu gwybodaeth am bob ymgeisydd ac roedd tuedd bosibl wrth i ymgeiswyr anetholedig beidio ag ymateb. Am y rheswm hwnnw, yn ogystal â'r rhesymau a amlinellwyd o'r blaen, ni ddylid cymharu canlyniadau 2017 a 2012 yn uniongyrchol.
- 3.3** Cafodd arolwg 2017 ei lunio i leihau tuedd bosibl wrth i ymgeiswyr anetholedig beidio ag ymateb drwy fod ar gael cyn yr etholiad. Cafodd rhai dynodwyr unigryw eu casglu fel rhan o'r holiadur i ganiatáu eu cysylltu â chofnod ymgeisydd er mwyn deall a gafodd yr ymgeisydd ei ethol neu beidio yn dilyn yr etholiad. Daeth 79 y cant o ymatebion i law cyn yr etholiad, ac 21 y cant wedi'r etholiad.
- 3.4** Gall ymgeiswyr sefyll mewn etholiadau sir neu gymuned, neu'r ddau. Dangosir crynodeb o nifer cyffredinol yr ymgeiswyr yn Nhabl 1.

Tabl 1: Ymgeiswyr yn ôl math o etholiad

	Nifer	Canran
Holl ymgeiswyr	9,352	100
Sir yn unig	2,026	22
Cymuned yn unig	5,903	63
Sir a Chymuned	1,423	15
Cyfanswm Sir	3,449	37
Cyfanswm Cymuned	7,326	78

- 3.5** Mae'n bosibl hefyd i ymgeiswyr sefyll am fwy nag un sedd gymunedol. O'r 7,326 o ymgeiswyr mewn seddi cymunedol, safodd 75 o ymgeiswyr (1 y cant) mewn mwy nag un sedd gymunedol. Pan safodd ymgeiswyr am fwy nag un sedd, maent wedi eu cyfrif unwaith yn unig. Mae ymgeiswyr a safodd am fwy nag un sedd wedi cael eu categoreiddio fel etholedig os cawsant eu hethol i o leiaf un o'r seddi hyn. Rydym yn cyfeirio at ymgeiswyr a gafodd eu hethol fel cynghorwyr yn yr adroddiad hwn. Rydym

yn cyfeirio at ymgeiswyr na chawsant eu hethol i'r un o'r seddi roeddent yn sefyll amdanynt fel ymgeiswyr anetholedig.

- 3.6** Seddi un ymgeisydd yw'r rhai na chawsant ddigon o ymgeiswyr i wneud etholiad yn ofynnol. Mae ymgeiswyr mewn seddi un ymgeisydd yn cael eu categoreiddio fel etholedig at ddiben y dadansoddiad hwn.
- 3.7** Ymatebodd nifer o ymgeiswyr i'r arolwg mwy nag unwaith, o ganlyniad i dderbyn mwy nag un pecyn enwebu neu nodiadau atgoffa/anogaeth a anfonwyd o'r Uned Ddata neu'r awdurdod lleol. Dim ond un ymateb i'r arolwg sydd wedi'i gynnwys am bob ymgeisydd - lle roedd y ddau ymateb yn ymatebion cyflawn, dewiswyd yr ymateb diweddaraf i'w gynnwys yn y dadansoddiad.
- 3.8** Yn gyffredinol, safodd 9,352 o ymgeiswyr am etholiad. Roedd 3,449 o ymgeiswyr sir a 7,326 o ymgeiswyr cymuned. Denodd yr arolwg 1,701 o ymatebion dilys a rhoddir crynodeb o ymatebion yr arolwg a chyfraddau ymateb yn ôl math o etholiad yn Nhabl 2.

Tabl 2: Cyfraddau ymateb yn ôl math o etholiad

	Ymgeiswyr	Cyfran etholedig (%)	Ymatebion i'r arolwg	Cyfradd ymateb (%)
Holl	9,352		1,701	18
Etholedig	7,220	77	1,272	18
Anetholedig	2,132	23	429	20
Sir	3,449		811	24
Etholedig	1,254	36	329	26
Anetholedig	2,195	64	482	22
Cymuned	7,326		1,256	17
Etholedig	6,571	90	1,100	17
Anetholedig	755	10	156	21

- 3.9** Roedd cyfraddau ymateb ymhlith yr holl ymgeiswyr yn amrywio o 26 y cant yn Sir Ddinbych i 11 y cant ym Mhowys. Rhoddir nifer yr ymgeiswyr ac ymatebion arolwg a dderbyniwyd ym mhob awdurdod lleol yn Nhabl 3.

Tabl 3: Cyfraddau ymateb yn ôl awdurdod lleol


	Ymgeiswyr	Ymatebion	Cyfradd ymateb (%)
Ynys Môn	363	48	13
Gwynedd	719	100	14
Conwy	389	65	17
Sir Ddinbych	421	108	26
Sir y Fflint	440	96	22
Wrecsam	426	94	22
Powys	977	109	11
Ceredigion	534	63	12
Sir Benfro	683	141	21
Sir Gaerfyrddin	847	133	16
Abertawe	419	101	24
Castell-nedd Port Talbot	343	77	22
Pen-y-bont ar Ogwr	333	76	23
Bro Morgannwg	385	101	26
Caerdydd	371	67	18
Rhondda Cynon Taf	338	58	17
Merthyr Tudful	77	23	30
Caerffili	340	73	21
Blaenau Gwent	122	27	22
Torfaen	173	29	17
Sir Fynwy	400	74	19
Casnewydd	252	38	15

- 3.10** Dewisodd rhai ymatebwyr beidio ag ateb rhai cwestiynau penodol. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys dim ond ymatebion dilys am bob cwestiwn, felly mae gan gwestiynau nifer sylfaen gwahanol o ymatebwyr. Nodir y seiliau hyn o dan ffigurau/o fewn dablau.
- 3.11** Mae'r holl ffigurau yn yr adroddiad yn cyfeirio at yr ymgeiswyr a ymatebodd i'r arolwg, nid at yr holl ymgeiswyr a safodd yn yr etholiadau.

4. Profiad blaenorol fel cynghorydd Sir

4.1 Er i gwestiwn tebyg gael ei ofyn yn arolwg 2012, newidiodd y cwestiwn yn 2017 ac nid yw'n bosibl cymharu'r canlyniadau yn uniongyrchol.

Ffigur 1: Ydych chi wedi sefyll i gael eich ethol i Gyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol yn y gorffennol?



Sail: ¹1,693, ²328, ³482, ⁴1,092, ⁵156

4.2 Roedd tua un o bob tri (31 y cant) o ymgeiswyr wedi sefyll am etholiad fel cynghorydd sir neu fwrdeistref sirol yn y gorffennol; roedd 19 y cant wedi cael eu hethol o'r blaen.

4.3 O'r sawl a etholwyd yn gyngorwyr sir yn 2017, roedd 62 y cant wedi sefyll am etholiad fel cynghorydd sir mewn etholiadau blaenorol, ac roedd 51 y cant wedi cael eu hethol o'r blaen.


4.4 Roedd cyfanswm y blynyddoedd roedd ymgeiswyr wedi eu gwasanaethu o'r blaen fel cynghorwyr sir yn amrywio o lai na blwyddyn i fwy na 55 o flynyddoedd. Hyd canolrifol gwasanaeth blaenorol oedd 9 mlynedd. Roedd tua 36 y cant o'r sawl a oedd wedi gwasanaethu fel cynghorwyr sir o'r blaen wedi gwneud hynny am 10 mlynedd neu fwy. Gofynnwyd i ymgeiswyr gynnwys pob cyfnod yn y swydd ac ni holwyd am unrhyw fylchau mewn gwasanaeth.

4.5 Roedd un o bob pump (20 y cant) o ymgeiswyr sir anetholedig wedi bod yn aflwyddiannus yn etholiadau blynyddoedd blaenorol hefyd.

5. Profiad blaenorol fel cynghorydd Cymuned

5.1 Unwaith eto, gofynnwyd y cwestiwn hwn yn wahanol yn arolwg 2017 o'i gymharu â 2012, felly nid yw'n briodol cymharu'r canlyniadau yn uniongyrchol.

Ffigur 2: Ydych chi wedi sefyll i gael eich ethol i Gyngor Cymuned neu i Gyngor Tref yn y gorffennol?




5.2 Roedd tua hanner yr ymgeiswyr wedi sefyll am etholiad i gyngor cymuned neu dref yn y gorffennol (45 y cant); roedd 40 y cant wedi eu hethol yn llwyddiannus o'r blaen.

5.3 O'r sawl a etholwyd yn gynghorwyr cymuned yn 2017, roedd mwy na hanner (57 y cant) wedi sefyll am etholiad i gynghorau cymuned o'r blaen; roedd 53 y cant wedi eu hethol yn llwyddiannus o'r blaen.

5.4 Roedd cyfanswm y blynyddoedd roedd ymgeiswyr wedi eu gwasanaethu o'r blaen fel cynghorwyr cymuned yn amrywio o lai na blwyddyn i fwy na 55 o flynyddoedd. Hyd ganolrifol gwasanaeth blaenorol oedd 9 mlynedd. Roedd 48 y cant o'r sawl a oedd wedi gwasanaethu'n gynghorydd cymuned o'r blaen wedi gwneud hynny am 10 mlynedd neu fwy. Gofynnwyd i ymgeiswyr gynnwys pob cyfnod yn y swydd ac ni holwyd am unrhyw fylchau mewn gwasanaeth.

6. Ymlyniad i blaid

Ffigur 3: Pa blaid, os unrhyw un, ydych chi'n ei chynrychioli/oeddech chi'n ei chynrychioli?




Sail: ¹11,578, ²325, ³466, ⁴ 1,000, ⁵ 145

- 6.1** O'r cynghorwyr sir a ymatebodd i'r arolwg, dywedodd 42 y cant eu bod yn cynrychioli Llafur Cymru, safodd 26 y cant fel Annibynwyr, safodd 15 y cant dros Blaid Cymru, safodd 10 y cant dros Geidwadwyr Cymru, safodd 6 y cant dros Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru a safodd 1 y cant dros bleidiau eraill.
- 6.2** Ymhlith cynghorwyr cymuned, safodd 55 y cant fel Annibynwyr, safodd 20 y cant dros Lafur Cymru, safodd 13 y cant dros Blaid Cymru, safodd 5 y cant dros Geidwadwyr Cymru, safodd 2 y cant dros Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru a safodd 6 y cant dros bleidiau eraill.
- 6.3** Dewisodd lleiafrif bach o ymatebwyr, 7 y cant, beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

7. Rhywedd


Ffigur 4: Rhywedd ymatebwyr i'r arolwg



- 7.1** Yn gyffredinol, canfu'r arolwg fod 66 y cant o ymgeiswyr yn wryw ac roedd 34 y cant yn fenyw. Roedd y canrannau hyn yn debyg ar gyfer y cynghorwyr a'r ymgeiswyr anetholedig mewn etholiadau sir a chymuned fel ei gilydd.
- 7.2** Roedd un o bob tri o gynghorwyr sir (33 y cant) yn fenyw ac roedd 35 y cant o gynghorwyr cymuned yn fenyw.
- 7.3** Dewisodd lleiafrif bach o ymatebwyr, 5 y cant, beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

7.4 Rhywedd ac ymlyniad i blaid

Ffigur 5: Rhywedd ac ymlyniad cynghorwyr etholedig i blaid




Sail: ¹128, ²47, ³20, ⁴ 32, ⁵ 188, ⁶ 126, ⁷ 17, ⁸ 54

7.5 Canfu'r arolwg fod cyfran y cynghorwyr benyw yn amrywio o 25 y cant i 39 y cant rhwng y pleidiau gwleidyddol.

7.6 Roedd y patrwm yn debyg yn achos cynghorwyr cymuned, gyda chyfran ychydig yn uwch o Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (29 y cant) a chyfran is o Geidwadwyr Cymru (22 y cant) yn fenyw.

8. Oedran

Ffigur 6: Ym mha ystod oedran oeddech ar eich pen-blwydd diweddaraf?



Sail: ¹1,684, ²328, ³481, ⁴1,085, ⁵155

- 8.1** Canfu'r arolwg fod 50 y cant o ymgeiswyr yn 60 blwydd oed neu'n hŷn.
- 8.2** Ymhlith cynghorwyr etholedig, roedd 47 y cant o gynghorwyr sir a 55 y cant o gynghorwyr cymuned yn 60 blwydd oed neu'n hŷn.
- 8.3** Roedd lleiafrif bach o gynghorwyr sir (8 y cant) a chynghorwyr cymuned (3 y cant) yn 18 i 29 oed. Ymhlith ymgeiswyr sir a chymuned anetholedig roedd 10 y cant yn y grŵp oedran hwn.
- 8.4** Gan edrych ar rywedd ac oedran, roedd 34 y cant o'r holl gynghorwyr sir yn wrywod 60 blwydd oed neu'n hŷn, 13 y cant yn fenywod 60 blwydd oed neu'n hŷn, 34 y cant yn wrywod 18 i 59 oed ac roedd 20 y cant yn fenywod 18 i 59 oed.

9. Ethnigrwydd


Tabl 4: Beth yw eich grŵp ethnig?

	Gwyn (%)	Grŵp ethnig arall (%)	Sail
Holl ymgeiswyr	98.2	1.8	1,682
Cynghorwyr Sir	98.2	1.8	326
Ymgeiswyr Sir anetholedig	97.7	2.3	482
Cynghorwyr Cymuned	98.8	1.2	1,083
Ymgeiswyr Cymuned anetholedig	98.1	1.9	155

- 9.1** Adroddodd mwyafrif mawr o ymgeiswyr (98 y cant) eu bod o grŵp ethnig Gwyn (Cymro/Sais/Albanwr/Gwyddel Gogledd Iwerddon/Prydeiniwr, Gwyddel, Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig ac unrhyw gefndir Gwyn arall).
- 9.2** Roedd ymgeiswyr o grwpiau ethnig eraill (gan gynnwys Cymysg/Lluosog, Asiaidd/Asiaidd Prydeinig, Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig a Grwpiau ethnig eraill) yn cyfrif am ddim ond 1.8 y cant o'r holl ymgeiswyr.
- 9.3** Yn yr un modd, datganodd 1.8 y cant o gynghorwyr sir ac 1.2 y cant o gynghorwyr cymuned eu bod o grwpiau ethnig heb fod yn wyn.

10. Crefydd

Ffigur 7: Beth yw eich crefydd?



10.1 Adroddodd tua dau o bob tri ymgeisydd (64 y cant) eu bod yn Gristnogion (pob enwad), tra bod 34 y cant heb unrhyw grefydd, ac atebodd 2 y cant “arall” (gan gynnwys Bwdist, Hindŵ, Iddew, Mwslim, Sîc ac ‘unrhyw grefydd arall’).

10.2 Ychydig o amrywiaeth oedd ar draws y samplau o gynghorwyr sir a chymuned ac ymgeiswyr anetholedig.

11. Cyfeiriadedd rhywiol


Tabl 5: Cyfeiriadedd rhywiol ymatebion yr arolwg

	Hetero- rywiol / Syth (%)	Lesbiaidd / Hoyw / Ddeurywiol (%)	Arall (%)	Sail
Holl ymgeiswyr	94.0	4.9	1.0	1,661
Cynghorwyr Sir	92.6	7.1	0.3	324
Ymgeiswyr Sir anetholedig	91.6	6.9	1.5	478
Cynghorwyr Cymuned	95.1	3.7	1.1	1,068
Ymgeiswyr Cymuned anetholedig	96.7	3.3	0.0	152

- 11.1** Canfu'r arolwg fod 94 y cant o ymgeiswyr yn adnabod eu hunain fel hetero-rywiol neu syth, 5 y cant fel lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol ac 1 y cant fel 'arall'.
- 11.2** Roedd canran yr ymgeiswyr a oedd yn adnabod eu hunain fel lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol yn amrywio o 3 y cant o ymgeiswyr cymuned anetholedig i 7 y cant o gynghorwyr sir.
- 11.3** Er bod prinder ymatebion i gwestiynau am gyfeiriadedd rhywiol yn gallu effeithio ar arolygon, mae'n ddiddorol sylwi mai dim ond 2 y cant o ymatebwyr yr arolwg a ddewisodd beidio ag ateb y cwestiwn hwn. Mae hon yn gyfran is na'r rhai a fethodd â datgelu eu rhywedd (5 y cant) neu eu hymlyniad i blaid wleidyddol (7 y cant).

12. Addysg a chymwysterau

Ffigur 8: Beth yw eich cymhwyster addysgol uchaf?




- 12.1** Roedd mwy na dau o bob tri ymgeisydd (68 y cant) yn dal cymhwyster a oedd yn cyfateb i NVQ lefel 4 neu'n uwch (h.y. gradd, gradd ôl-raddedig neu gymhwyster proffesiynol). Roedd gan 10 y cant gymhwyster a oedd yn cyfateb i NVQ lefel 3 ac 16 y cant arall i NVQ lefel 1/2. Roedd 6 y cant heb unrhyw gymwysterau addysgol ffurfiol.
- 12.2** Roedd y cyfrannau hyn yn debyg ar draws cyngorwyr sir a chymuned ac ymgeiswyr anetholedig.

13. Statws cyflogaeth

13.1 Gofynnwyd y cwestiwn hwn yn wahanol yn arolwg 2017 o'i gymharu â 2012, felly nid yw'n briodol cymharu'r canlyniadau yn uniongyrchol. Pan ddewisodd ymgeiswyr fwy nag un statws cyflogaeth, mae eu hymatebion wedi eu hail-godio i un prif statws economaidd at ddiben y dadansoddiad. Effeithiodd hyn ar 151 o ymgeiswyr (neu 9 y cant).

Ffigur 9: Beth yw eich statws cyflogaeth cyfredol?




13.2 Roedd mwy nag un o bob tri (39 y cant) o ymgeiswyr yn gyflogedig naill ai'n amser llawn (28 y cant) neu'n rhan-amser (11 y cant) ac roedd 16 y cant yn hunangyflogedig. Roedd 37 y cant o ymgeiswyr wedi ymddeol, ac roedd 2 y cant yn ddi-waith. Roedd y 6 y cant arall yn fyfyrwyr amser llawn neu ran-amser, ar absenoldeb mamolaeth, yn edrych ar ôl teulu neu'r cartref, yn anabl neu'n sâl hirdymor, ar gynllun hyfforddiant y llywodraeth, yn ofalwyr di-dâl, yn weithwyr di-dâl mewn busnes teuluol, neu wedi dewis "arall".

13.3 Ymhlith cynghorwyr sir, roedd 48 y cant yn gyflogeion, 16 y cant yn hunangyflogedig a 31 y cant wedi ymddeol.

13.4 Cyfran y cynghorwyr cymuned a oedd yn gyflogeion oedd 36 y cant ac roedd 42 y cant wedi ymddeol.

13.5 Sector cyflogaeth

Ffigur 10: Pa categori sy'n disgrifio orau eich sector cyflogaeth cyfredol neu ddiweddaraf?




13.6 Dywedodd y mwyafrif o ymgeiswyr (44 y cant) mai yn y sector cyhoeddus oedd eu cyflogaeth bresennol neu ddiweddaraf (gan gynnwys llywodraeth leol, llywodraeth ganolog, GIG, addysg a sector cyhoeddus arall). Roedd 39 y cant yn gweithio yn y sector preifat, roedd 7 y cant yn gweithio yn y sector gwirfoddol a 10 y cant mewn sectorau 'eraill' (gan gynnwys amaethyddiaeth).

13.7 Ychydig o amrywiaeth oedd ar draws y gwahanol fathau o ymgeiswyr.

13.8 Math o gyflogaeth

Ffigur 11: Pa gategori sy'n disgrifio orau eich math o gyflogaeth gyfredol neu ddiweddaraf?




13.9 Roedd y mwyafrif o ymgeiswyr yn gweithio ar hyn o bryd, neu'n fwyaf diweddar, mewn rolau rheoli/gweithredol (33 y cant) neu broffesiynol/technegol (28 y cant).

13.10 Unwaith eto, ychydig o amrywiaeth oedd ar draws y gwahanol fathau o ymgeiswyr.

13.11 Cyfrifoldeb fel rhiant

Ffigur 12: A oes gennych gyfrifoldeb rhiant am blentyn 16 oed neu'n iau?



Sail: ¹1,676, ²325, ³479, ⁴ 1,080, ⁵ 154

13.12 Canfu'r arolwg fod gan 18 y cant o ymgeiswyr blant dibynnol.

13.13 Ymhlith cynghorwyr etholedig, roedd gan 16 y cant o gynghorwyr sir a 15 y cant o gynghorwyr cymuned blant dibynnol. Roedd gan 25 y cant o ymgeiswyr sir anetholedig blant dibynnol.

13.14 Ymhlith cynghorwyr sir, roedd gan 15 y cant o wrywod ac 21 y cant o fenywod blant dibynnol.

13.15 Ymhlith cynghorwyr cymuned, roedd gan 14 y cant o wrywod a 19 y cant o fenywod blant dibynnol.

14. Cymorth di-dâl


Tabl 6: Ydych chi wedi rhoi cymorth di-dâl, er enghraifft, fel gwirfoddolwr, ymddiriedolwr neu aelod o fwrdd, i unrhyw un o'r mathau hyn o grwpiau neu sefydliadau ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis blaenorol?

	Holl ymgeiswyr (%)	Cynghorwyr Sir (%)	Cynghorwyr Cymuned (%)
Grŵp cymunedol neu grŵp cymdogaeth	54	60	59
Plaid wleidyddol	43	61	32
Addysg plant/ysgolion	36	59	36
Gweithgareddau ieuencid/plant (tu allan i'r ysgol)	23	32	23
Yr henoed	19	25	20
Grŵp amgylcheddol	19	22	18
Clwb cymdeithasol	18	21	18
Grŵp iechyd, anabledd neu les cymdeithasol	17	18	17
Grŵp crefyddol neu grŵp ffydd	16	19	17
Chwaraeon neu ymarfer corff (e.e. hyfforddi)	14	17	13
Undeb llafur	11	17	10
Addysg oedolion	10	11	9
Grŵp dinasyddion	9	12	9
Cymorth cyntaf	9	7	9
Cyfiawnder neu Hawliau Dynol	8	5	7
Grŵp lles anifeiliaid	5	4	5
Grŵp ar sail rhywedd	2	2	2
Grŵp rhywioldeb	2	2	1
Arall	14	12	15
Sail	1,620	321	1,040

- 14.1** Y gweithgarwch di-dâl a adroddwyd amlaf oedd rhoi cymorth i grwpiau cymuned/ cymdogaeth gyda 54 y cant o'r holl ymgeiswyr yn adrodd eu bod wedi gwneud hyn yn ystod y 12 mis diwethaf.
- 14.2** Ymhlith cynghorwyr sir, y gweithgarwch di-dâl a adroddwyd amlaf oedd rhoi cymorth i blaid wleidyddol, gyda 61 y cant yn datgan eu bod wedi gwneud hyn yn ystod y 12 mis diwethaf.


15. Iechyd corfforol a meddyliol

Ffigur 13: Sut mae eich iechyd corfforol yn gyffredinol?



Sail: 1,659

Ffigur 14: Sut mae eich iechyd meddwl yn gyffredinol?




Sail: 1,663

- 15.1** Adroddodd mwyafrif mawr o ymgeiswyr (85 y cant) fod eu hiechyd corfforol yn dda neu'n dda iawn a 94 y cant fod eu hiechyd meddwl yn dda neu'n dda iawn.
- 15.2** Ymhlith cynghorwyr etholedig, adroddodd 89 y cant o gynghorwyr sir ac 85 y cant o gynghorwyr cymuned fod eu hiechyd corfforol yn dda neu'n dda iawn. Yn achos iechyd meddwl roedd hyn yn 93 y cant a 94 y cant yn y drefn honno.

16. Anabledd

16.1 Gofynnwyd y cwestiwn hwn yn wahanol yn arolwg 2017 o'i gymharu â 2012 felly nid yw'n briodol cymharu'r canlyniadau yn uniongyrchol.

Ffigur 15: Ydych chi'n ystyried bod gennych anabledd? / A oes gennych salwch neu anabledd sy'n cyfyngu ar eich gweithgareddau mewn unrhyw ffordd?



16.2 O'r holl ymgeiswyr, ystyriodd 15 y cant fod ganddynt anabledd ac adroddodd 21 y cant fod ganddynt afiechyd neu anabledd a oedd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau bob dydd.


16.3 Ymhlith cynghorwyr sir, roedd 11 y cant yn ystyried bod ganddynt anabledd ac roedd gan 18 y cant anhwylder cyfyngus.

16.4 I gymharu, adroddodd 15 y cant o gynghorwyr cymuned fod ganddynt anabledd ac 21 y cant fod ganddynt anhwylder cyfyngus.

16.5 O ran oedran, roedd mwy na thri chwarter yr ymgeiswyr a oedd yn ystyried bod ganddynt anabledd yn 50 oed neu'n hŷn (77 y cant).

17. Yr iaith Gymraeg


Ffigur 16: Beth yw eich prif iaith?



Sail: ¹1,673, ²326, ³478, ⁴ 1,077, ⁵ 153

- 17.1** Dywedodd cyfran fawr (86 y cant) o ymgeiswyr mai Saesneg oedd eu prif iaith a 14 y cant mai Cymraeg oedd eu prif iaith. Nododd nifer fach o ymgeiswyr (llai na 5) nad Cymraeg na Saesneg oedd eu prif iaith.
- 17.2** Ymhlith cynghorwyr sir, dywedodd 15 y cant mai Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf, o'u cymharu â 17 y cant o gynghorwyr cymuned.
- 17.3** Gallai patrwm daearyddol cyfraddau ymateb i'r arolwg ledled Cymru fod wedi effeithio ar y cyfrannau hyn.
- 17.4** Cwblhaodd 9 y cant o ymgeiswyr yr arolwg yn Gymraeg.

Ffigur 17: Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?



Sail: ¹1,671, ²325, ³480, ⁴ 1,076, ⁵ 153

17.5 Ymhlith yr holl ymgeiswyr, dywedodd 33 y cant eu bod yn gallu deall Cymraeg llafar, roedd 27 y cant yn gallu siarad Cymraeg, 27 y cant yn gallu darllen Cymraeg, a 23 y cant yn gallu ysgrifennu Cymraeg.

17.6 Dywedodd cyfran uwch o gynghorwyr cymuned eu bod yn gall siarad Cymraeg na chynghorwyr sir, sef 30 y cant o'u cymharu â 26 y cant.

18. Argymhellion

- 18.1** Mae arolwg o ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol yn ddull allweddol o sicrhau gwybodaeth am amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr. Roedd y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer arolwg 2017 yn cynnwys defnyddio gwybodaeth enwebu ymgeiswyr fel y ffrâm samplo. Bu'r dull hwn yn llwyddiannus wrth sicrhau gwybodaeth am y boblogaeth ymgeiswyr nad oedd ar gael o'r blaen.
- 18.2** Gallai ffurflenni enwebu ymgeiswyr gael eu hestyn i gefnogi dealltwriaeth well o amrywiaeth ymgeiswyr. Er enghraifft, mae meysydd ar gyfer dyddiad geni a phlaid wleidyddol eisoes yn cael eu cynnwys ar ffurfleni enwebu. Byddai cynnwys cwestiwn am rywedd yn darparu gwybodaeth werthfawr am y boblogaeth ymgeiswyr.
- 18.3** Byddai dadansoddiad pellach o'r boblogaeth ymgeiswyr fesul plaid wleidyddol neu'n ddaearyddol yn rhoi gwybodaeth i gefnogi llunio strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant.
- 18.4** Dylid ystyried dulliau o hybu cyfradd ymateb yr arolwg. Mae'n debyg bod cynnal yr arolwg ar-lein yn bennaf yn ffactor yn y cyfraddau ymateb is ar gyfer 2017 o'u cymharu â chyfraddau 2012. Mae'r ymdrech i gynnal arolygon ar-lein yn parhau. Bydd arolygon ar-lein swyddogol yn dod yn fwy cyffredin ac yn fwy na thebyg bydd y dull hwn yn cael ei dderbyn yn ehangach.